| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **30 MEDI 2015** |
| **TEITL:** | **SICRHAU DEMOCRATIAETH AMRYWIOL MEWN LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

**1.0 Cefndir**

1.1 Cyflwynais adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar 18 Mehefin 2014 mewn perthynas â'r Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol a sefydlwyd gan y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Rhoddwyd i'r Grŵp Arbenigol y dasg o edrych ar broffil Llywodraeth Leol a gwneud argymhellion ynghylch gwella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn yr etholiadau lleol yn 2017.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi i'r Pwyllgor y diweddariad y gofynnodd amdano.

1.3 Mae gwaith y Grŵp Arbenigol wedi canolbwyntio ar:

- Gwella'r Arolwg o'r Ymgeiswyr Llywodraeth Leol

  (arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn yr etholiadau sirol a chymunedol yn 2012)

- Mentora ar gyfer ymgeiswyr posibl yn yr etholiadau llywodraeth leol
- Datblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd
- Gweithio gyda chyflogwyr
- Cefnogi ymgeiswyr anabl
- Cyfweliadau ymadael ar gyfer Cynghorwyr

1.4 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth ar-lein mewn perthynas â'r Rhaglen Fentora. Cafodd y Rhaglen ei lansio'n swyddogol ar 17 Medi, 2015. Bwriad y rhaglen yw cynnig i unigolion sydd â diddordeb mewn sefyll

etholiad, fynediad i gyfleon mentora, hyfforddiant a chefnogaeth ar sail un i un ac mewn grwpiau ynghyd â'r cyfle i gysgodi rhywun sydd eisoes yn Gynghorydd.

1.5 O ran yr Awdurdod hwn, y Cynghorydd Carwyn Jones yw'r Eiriolydd Amrywiaeth. Sefydlwyd rhwydwaith ar lefel Gogledd Cymru o Eiriolwyr Amrywiaeth i gefnogi gwaith y Grŵp Arbenigol. Mae'r dasg o roddi sylw i wahanol faterion yn cael ei wneud mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru.

1.6 Wrth baratoi ar gyfer Etholiadau Lleol 2017 yn Ynys Môn, bydd gwybodaeth a gynhyrchwyd gan y Grŵp Arbenigol ar gael i ddarpar ymgeiswyr a bydd yn cael ei chynnwys ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.

**2.0 Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**Huw Jones**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
**21/09/15**